Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Ymgynghoriad Trysorlys Ei Fawrhydi ac ymateb i'r alwad am dystiolaeth - Gwahardd galw diwahoddiad am gynnyrch a gwasanaethau ariannol defnyddwyr

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru. Nod y Rhwydwaith yw dod yn llais strategol dros ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, drwy gydweithio i hyrwyddo a chefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol a dylanwadu ar lunio a datblygu polisi cenedlaethol ac arferion lleol.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. **Yn eich profiad chi, beth yw'r prif niwed a achosir gan alwadau diwahoddiad i farchnata cynnyrch a gwasanaethau ariannol?**

Gall y niwed ddeillio o werthu neu ddarparu cynnyrch nad oes eu hangen ar unigolyn, a hynny mewn modd amhriodol, ac sy'n targedu pobl ddiamddiffyn yn cynnwys pobl â nam gwybyddol. Mae hefyd yn darparu llwybr y gall pobl sydd â bwriad troseddol a bwriad o dwyllo fanteisio arno. Gall y niwed amrywio o aflonyddu ac effeithio ar iechyd meddwl unigolion, i golled ariannol i ddwyn hunaniaeth a hunanladdiad neu gynyddu cam-drin domestig o ganlyniad i straen ariannol ychwanegol.

**2. Ydych chi'n cytuno y dylai'r gwaharddiad ar alwadau diwahoddiad gynnwys galwadau ffôn byw i unigolyn?**

Ydyn, rydym ni'n cytuno y dylai'r gwaharddiad ar alwadau diwahoddiad gynnwys galwadau ffôn byw i unigolyn sy'n dod gan unigolyn arall, deallusrwydd artiffisial neu ddull cyfathrebu arall a gaiff ei ddefnyddio gan bobl sydd wedi colli eu clyw ond sy'n defnyddio technoleg ffôn. Dylai hyn gynnwys llinellau tir, ffonau symudol (â botymau), ffonau clyfar, llechen sy'n cynnwys IAP neu Apiau y gellir eu defnyddio yn lle offer ffôn traddodiadol (e.e. Skype, Microsoft Teams).

**3. I ba raddau y mae marchnata uniongyrchol digymell o wasanaethau neu gynnyrch ariannol yn digwydd trwy gyfathrebiadau byw, electronig, ar wahan i alwadau ffôn? A fydd unrhyw effeithiau os na chaiff y cyfathrebiadau hyn eu cynnwys yn y gwaharddiad ar alwadau diwahoddiad?**

Mae negeseuon testun wedi'u defnyddio yn gysylltiedig â PIP a thrwy sgamiau yn gysylltiedig â brechlynnau COVID-19 ac felly byddai'n briodol ystyried cynnwys y rhain yn y ddeddfwriaeth ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth ar Ffermydd SIM yr ymgynghorwyd yn ei chylch yn gynharach eleni.

Bu achosion hefyd pan ddefnyddiwyd negeseuon e-bost mewn sgamiau ariannol posibl eraill. Dylai fod yn bosibl rhannu gwybodaeth ond mewn modd nad yw unigolion neu gangiau troseddol yn gallu defnyddio’r wybodaeth hon er eu budd personol eu hunain.

**4. Oes mesurau diogelu ar waith ar hyn o bryd drwy sefydliadau cyfryngau cymdeithasol sydd eisoes yn gwarchod pobl rhag twyllwyr sy’n defnyddio galwadau llais a fideo ar y cyfryngau cymdeithasol i wneud galwadau diwahoddiad?**

Nid ydym yn ymwybodol o’r mesurau diogelu hyn, ac yr ydym ni’n pryderu y gallai’r cyfryngau cymdeithasol gael eu defnyddio i rannu gwybodaeth ffug i wneud i alwad dwyllodrus ymddangos yn fwy dilys nag yw hi mewn gwirionedd. Rydym ni’n ymwybodol bod straeon ar y cyfryngau cymdeithasol wedi arwain at sgamiau ac at dwyllo neu ymgais i dwyllo, wrth i’r bobl hynny sydd â bwriad troseddol fanteisio ar newyddion a gwybodaeth sy'n cael eu rhannu.

**5. I ba raddau y mae marchnata gwasanaethau neu gynnyrch ariannol yn digwydd trwy werthu o ddrws i ddrws?**

Mae hyn wedi'i gyfyngu oherwydd bod yn rhaid cael trwydded i fynd o ddrws i ddrws ac mae gwneud hyn heb drwydded yn drosedd yn ei hun.

**6. Sut gallai gwahardd galwadau diwahoddiad fod yn effeithiol o ran atal gwerthu o ddrws i ddrws ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau ariannol?**

Os oes rhaid i gwmni neu sefydliad gael trwydded i fynd o ddrws i ddrws, ni ddylid rhoi trwydded i unrhyw un sy'n gwerthu gwasanaethau neu gynnyrch ariannol.

**7. Oes mathau eraill o alwadau diwahoddiad ar wahan i gyfathrebiadau electronig a gwerthu wyneb yn wyneb sy'n achosi niwed i ddefnyddwyr?**

Wrth i dechnolegau newydd gael eu datblygu mae’n debygol y bydd pobl sydd am dwyllo eraill yn defnyddio ac yn manteisio ar hyn, felly yr ydym ni’n credu ei bod yn bwysig bod y ddeddfwriaeth yn gallu ymateb yn briodol neu ar gyfer y rhan hon o ddeddfwriaeth, a dyna pam mai technolegau rhestredig y gwyddys amdanynt ar hyn o bryd yn unig a allai gyfyngu ar effaith y ddeddfwriaeth.

**8. Dylai masnachwyr unigol a mathau eraill o bartneriaethau (y tu allan i bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig a phartneriaethau Albanaidd) gael eu cynnwys yn y gwaharddiad hwn ar gynnyrch a gwasanaethau ariannol defnyddwyr?**

Rydym ni’n credu y dylai fod yn berthnasol i fasnachwyr unigol a allai fod yn darparu gwasanaethau ariannol cyfreithlon neu sy'n fenthycwyr arian didrwydded sy’n ymddangos yn ddilys neu beidio. Dylai ddiogelu pobl sy'n darparu gwasanaethau a chymorth ariannol gwirioneddol ac atal rhai ffyrdd i unigolion sydd â bwriad troseddol a bwriad o dwyllo rhag camfanteisio.

**9. Ydych chi’n cytuno y dylai cwmpas y gwaharddiad gynnwys y gwasanaethau a'r cynnyrch sydd wedi’u nodi yn yr adran uchod? Oes unrhyw**

**gynnyrch eraill y dylai gael eu cynnwys yn y gwaharddiad arfaethedig ar alwadau diwahoddiad o ran cynnyrch a gwasanaethau ariannol defnyddwyr?**

Rydym ni’n cytuno â'r gwasanaethau a'r cynnyrch sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Er bod rhywfaint o yswiriant ar gyfer pensiynau yn barod, yr ydym ni’n credu y byddai’n haws i bobl ddeall pe bai’n cael ei ymgorffori i unrhyw ddeddfwriaeth ynghylch gwasanaethau ariannol a chymorth i leihau’r cymhlethdod i ddioddefwyr posibl. Wrth i fwy o bobl fod â phensiwn ar wahân, mae hwn yn faes y rhagwelir rhagor o weithgarwch. Yn ogystal â hyn, ymddengys nad oes unrhyw beth yn ymwneud â rheoli dyled a allai fod yn ffordd o dwyllo unigolyn neu roi cyfle i bobl sydd am gymryd mantais ar amgylchiadau bregus wneud hynny.

**10. Oes unrhyw gynnyrch a gwasanaethau ariannol defnyddwyr na ddylai'r gwaharddiad hwn eu cynnwys?**

Dydyn ni ddim yn ymwybodol o unrhyw beth na ddylai’r gwaharddiad ei gynnwys ar hyn o bryd.

**11. Oes gennych chi farn ynghylch a ddylid cynnwys eithriad yn y gwaharddiad hwn ar alwadau diwahoddiad, ar gyfer sefyllfaoedd pan fo’r sawl sy’n galw yn fusnes wedi’i awdurdodi gan FCA neu PRA a bod cysylltiad yn bodoli eisoes rhwng y sawl sy’n galw a’r un sy’n derbyn yr alwad, fel bod yr un sy’n derbyn yr alwad yn rhagweld y bydd yn cael galwadau diwahoddiad?**

Rydym ni’n credu y dylai fod proses sy’n caniatáu i bobl ddewis a ydyn nhw eisiau cael galwadau diwahoddiad ai peidio, fel mai’r bobl sy'n rhoi caniatâd i gael galwadau diwahoddiad yn y sefyllfaoedd hyn yn unig fydd yn eu cael nhw. Byddai hyn yn lleihau’r potensial ar gyfer bwlch y gall busnesau llai moesegol neu bobl sydd â bwriad troseddol fanteisio arno.

**12. Ydych chi’n cytuno bod y dull arfaethedig yn cyflawni’r nod o gyfyngu ar alwadau marchnata uniongyrchol digymell yn gysylltiedig â chynnyrch a gwasanaethau ariannol, heblaw’r eithriadau sydd wedi’u nodi, heb gyfyngu ar alwadau dilys nad ydynt yn ymwneud â marchnata?**

Nid ydym yn cytuno nac yn anghytuno. Nid ydym yn siŵr a fydd yn cyrraedd yr holl dechnolegau newydd fel deallusrwydd artiffisial, a all gynnwys mwy o sgyrsiau ysgrifenedig ar-lein trwy ymweliadau â gwefannau neu negeseuon uniongyrchol drwy’r cyfryngau cymdeithasol a allai ymddangos yn debycach i hysbyseb, ond nid dyna ydyw, ac mae’n cyrraedd yr unigolyn yn uniongyrchol. Gall fod yn briodol cyfeirio at y defnydd o logarithmau i dargedu unigolion â gwasanaethau a chynnyrch ariannol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebiadau electronig neu unrhyw ddull cyfathrebu arall oherwydd gellir defnyddio’r defnydd cynyddol o logarithmau er mwyn gwneud iddo ymddangos mai hysbysebion yn unig ydyn nhw, tra eu bod nhw mewn gwirionedd wedi’u personoli ac yn targedu unigolyn yn yr un ffordd â galwad ffôn.

**13. Oes gennych chi farn ynghylch mecanwaith gorfodi a nodir ym mharagraffau 4.11 a 4.12 uchod?**

Ymddengys bod swyddogaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y nodir, yn briodol. Fodd bynnag, rydym ni'n credu hefyd y gallai fod rôl ar gyfer yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a'r Ombwdsmon Ariannol ar gyfer unigolion sy'n troseddu'n rheolaidd. O ran twyll a gweithgarwch troseddol arall, mae gorfodi'n cynnwys y system Cyfiawnder Troseddol gan gynnwys yr heddlu, y llysoedd, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Yn ogystal â hyn, mae trwyddedau ar gyfer mynd o ddrws i ddrws yn cael eu prosesu gan Gynghorau.

**14. Ym mha ffyrdd eraill all y llywodraeth sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r gwaharddiad?**

Hysbysebion yn codi ymwybyddiaeth ar y radio a'r teledu yn ogystal â'r llwybrau a awgrymir, a thrwy wasanaethau cyhoeddus fel llyfrgelloedd y Cyngor a meddygfeydd.

**15. Beth yw'r ystyriaethau allweddol wrth ddylunio'r ddeddfwriaeth i sicrhau ei bod yn glir ac yn effeithiol i'r cyhoedd?**

Neges glir a thryloyw heb jargon sy'n gwbl hygyrch, yn cynnwys ar gyfer pobl â phroblemau gwybyddol, yn ogystal â phobl â nam ar eu clyw (sydd efallai'n defnyddio Apiau neu wasanaethau eraill i barhau i ddefnyddio dulliau cyfathrebu llais).

**16. O ran eich profiad chi, sut gallai modelau busnes cwmnïau gael eu heffeithio o ganlyniad i'r gwaharddiad?**

Fel Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru nid oes barn gennym ni ar yr effaith bosibl ar fodelau busnes cwmnïau.

**17. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw grwpiau o fusnesau, sefydliadau a/neu unigolion y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnyn nhw'n benodol?**

Rydym ni'n sylweddoli y bydd yn effeithio ar wasanaethau a sefydliadau cyllid ac y gallai effeithio ar unrhyw un sy'n gweithio yn y sectorau hyn sy'n cael comisiwn. Rydym ni'n gobeithio y bydd yn helpu i atal ychydig o bobl ddiamddiffyn rhag cael eu targedu at ddibenion camfanteisio.

**18. Pa effeithiau y byddech chi'n disgwyl eu gweld ar bobl â'r nodweddion gwarchodedig a soniwyd amdanynt uchod o ganlyniad i wahardd galwadau diwahoddiad ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau ariannol defnyddwyr? Sut gall y llywodraeth ddylunio'r gwaharddiad i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau anghymesur ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig?**

Rydym ni'n nodi nad yw'r Gymraeg, sy'n ystyriaeth ar gyfer deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru, na ffactorau economaidd-gymdeithasol, sy'n nodwedd sy'n gymwys yng Nghymru ac i'r rheini y gallai'r ddeddfwriaeth hon fod yn arbennig o berthnasol iddynt, wedi cael sylw priodol.

**19. Oes barn neu unrhyw wybodaeth arall gennych chi y dylai'r llywodraeth eu hystyried yn gysylltiedig â'r gwaharddiad arfaethedig ar alwadau diwahoddiad yn ymwneud â gwasanaethau neu gynnyrch ariannol?**

Rydym ni’n pryderu am yr effaith y gallai costau byw ei chael ar bobl a’r cynnydd posibl mewn dyledion. Rydym ni’n awyddus i sicrhau nad yw’r ddeddfwriaeth yn atal pobl sydd â dyled sy’n peri problemau, neu sydd ar fin mynd i ddyled, rhag cael y cymorth a’r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Mae ein sylwadau eraill ni’n cysylltu â chyflymder newid a datblygiad ym maes technoleg a all ganiatáu i sefydliadau ariannol cyfreithlon fanteisio ar lwybrau a bylchau cyfreithlon; ond yr hyn sy’n peri pryder yw y bydd y bobl sy'n dymuno twyllo neu gamfanteisio ar unigolyn, teuluoedd neu bobl eraill yn manteisio ar hyn hefyd.